## Saffari Bywyd Gwyllt Porthor

Mae'r traeth tywodlyd, y glannau creigiog a'r tir amaethyddol o gwmpas Porthor yn gynefinoedd da i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Mae'r ddwy ynys lanw, sef Dinas Bach a Dinas Fawr, yn safleoedd nythu poblogaidd ar gyfer piod y môr ac yn gyrchfan fwydo i'r morlo llwyd ar lanw uchel. Ymhellach ar hyd yr arfordir, mae Uwchmynydd a Mynydd Anelog i'w gweld, yn glytwaith o liw ddiwedd yr haf ac yn yr hydref wrth i'r grug a'r eithin mân flodeuo. Mae'r rhostir arfordirol prin hwn yn gartref i nifer fawr o adar ac ymlusgiaid ac wrth i chi droedio llwybr yr arfordir, efallai y clywch chi'r ehedydd, y llinos, clochdar y cerrig neu dinwen y garn. Edrychwch yn ofalus wrth gerdded yn ystod y gwanwyn a'r haf, efallai y cewch chi gipolwg ar fadfall gyffredin neu wiber yn torheulo ar frigiadau creigiog neu waliau cerrig er mwyn cynhesu eu cyrff yn yr haul. Mae'r ffiniau caeau â'u ffensys dwbl a'r cloddiau yn darparu llwybrau ar gyfer mamaliaid bach felly rydych yn eithaf tebygol o weld adar ysglyfaethus fel y cudyll coch yn arolygu'r glaswelltir garw.

Mae'r pyllau glan môr ym Mhorthor yn ferw o greaduriaid diddorol. Efallai y dewch chi o hyd i anemonïau, crancod, sêr môr, berdys a mân bysgod fel y gobi yno, ymysg pethau eraill. Chwiliwch y draethlin am rai o drysorau'r dyfnfor. Efallai y dewch chi ar draws pwrs y forforwyn, wyau cregyn moch neu gregyn molysgiaid sydd wedi cael eu golchi i'r lan ar lanw uchel.

## Porthor Wildlife Safari

The beautiful sandy beach, rocky shores and farmland surrounding Porthor provide good habitats for a multitude of wildlife. The two tidal islands of Dinas Bach and Dinas Fawr are a popular nesting location for oystercatchers and feeding spot for grey seals at high tide. Further along the coast, Uwchmynydd and Mynydd Anelog are visible; a patchwork of colour in late summer and autumn as the heather and western gorse bloom. The rare coastal heath habitat is home to many birds and reptiles and as you walk the coast path you may hear skylark, linnet, stonechat or wheatear. Look closely as you walk during spring and summer, you might catch a glimpse of a common lizard or adder sunbathing on rocky outcrops or stone walls as they warm their bodies in the sun. The double fenced field boundaries and clawdd walls provide pathways for small mammals, so seeing predators such as kestrels patrolling the rough grassland is quite likely.

The rockpools at Porthor are teeming with interesting creatures. Anemones, crabs, starfish, shrimp and small fish like goby are just some that you might find. Explore the strandline on the beach for some of the treasures from the depths. You might discover shark egg casings, whelk eggs or any number of mollusc shells washed up on the high tides.

live

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020

Tionól Réigiúnach an Deiscirt
Southern Regional Assembly

Cláir Chistí Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014-2020
Cómhaoinithe ag Rialtas na hÉireann agus ag an Aontas Eorpach

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust
UCC University College Cork, Ireland / Coláiste na hOllscoile Corcaigh
Prifysgol Bangor University
South Kerry Development Partnership CLG
Cyngor Gwynedd Council

# ecoamgueddfa

## Saffari Bywyd Gwyllt Porthor
## Porthor Wildlife Safari



www.ecomuseumlive.eu
www.ecoamgueddfa.org

# Y 5 Mawr!

## Clustog Fair

Mae'r blodyn bach pinc deniadol hwn yn tyfu ar lethrau arfordirol, ar glogwyni creigiog a morfeydd heli. Yr adeg gorau i'w gweld yw rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf pan fyddant yn blodeuo, gan greu tyffiau o liw ar hyd yr arfordir. Mae clustog Fair yn ffafrio amodau hallt ac mae i'w gweld yn tyfu yn agos i'r linell penllanw. Dyma sydd i'w gyfrif am enw Gwyddeleg y planhigyn, sef 'tonna chladich', sy'n golygu tonnau traeth. Yn Gymraeg, mae'r enw yn cymharu'r blodau i glustogau bach pinc wrth edrych o bell.

## Cudyll coch

Mae'r cudyll coch yn lliw brown golau ac mae wedi'i orchuddio â smotiau tywyll; mae gan y gwryw ben llwydlas ond mae'r fenyw yn frown drosti. Mae eu nodweddion unigryw yn fwyaf amlwg pan fyddant yn sefyll ar y gwynt yn chwilio am ysglyfaeth, gyda'u cynffon lydan siâp ffan a'u cydbwysedd perffaith yn eu galluogi i gadw eu pen yn llonydd wrth chwilota'r tir oddi tanynt. Fel arfer mae nhw yn hela anifeiliaid bach fel y llŷg, llygod pengrwn a llygod ac mae'r rhain i'w gweld mewn mannau agored gyda glaswellt hir. Mae ganddynt olwg anhygoel ac maen nhw'n gallu gweld chwilen o 50 metr i ffwrdd. Mae nhw hyd yn oed yn gallu gweld golau uwchfioled, sy'n caniatáu iddynt ganfod olion wrin mamaliaid bach a disgyn arnynt yn annisgwyl wrth iddynt symud ar hyd y llwybrau maent yn eu dilyn o un guddfan i'r llall.

## Cranc gwyrdd

Y cranc gwyrdd yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin o granc sydd i'w gweld hyd glannau creigiog Ynysoedd Prydain ac Iwerddon. Maen nhw'n bwyta'r mwyafrif o bethau y maen nhw'n dod ar eu traws, gan gynnwys crancod bach eraill, cregyn llong, gwymon a gweddillion creaduriaid y môr sydd wedi marw. Maen nhw fel arfer yn wyrdd ac yn mesur hyd at 9cm ar draws eu cragen. Mae crancod gwyrdd i'w gweld ar hyd yr arfordir lle ceir cerrig a gwymon. Mae'r fenyw yn cario ei hwyau oren gyda hi i'w cadw'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr ac mae'n gallu dodwy hyd at 100,000 o wyau ar y tro.

## Melyn yr eithin/ Pen melyn

Mae'r aderyn hwn yn arbennig iawn ac yn hawdd ei adnabod, yn enwedig y gwryw gyda'i ben a'i fol melyn llachar a'r streipiau brown a du hyd ei frest a'i gefn. Mae'r fenyw yn debyg ond yn llai llachar ac yn fwy golau yn gyffredinol, gyda llai o felyn ar ei phen. Yn aml, maen nhw i'w gweld yn eistedd mewn llwyni eithin yn canu eu cân unigryw. Maen nhw'n bridio o fis Ebrill hyd ddiwedd Awst ac yn nythu mewn twyni tywod, ar glogwyni a hyd yn oed mewn waliau cerrig. Hadau a grawnfwydydd yw eu prif fwyd ond maen nhw hefyd yn bwyta lindys, malwod, pryfed genwair ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill.

## Anemoni gleiniog

Mae'r math hwn o anemoni i'w weld mewn pyllau glan môr yma ym Mhorthor a ledled yr ardal rynglanwol, yn glynu wrth greigiau er mwyn diogelwch. O dan ei gorff mae sugnolyn cryf i'w lynu wrth y graig, gydag agoriad uwchben sy'n caniatáu i'w dentaclau ddod allan pan mae o dan y dŵr. Mae ganddo 192 tentacl ar ffurf 6 chylch sy'n cael eu defnyddio i ddal ei ysglyfaeth a'i sugno i mewn i'w geg. Fe wnawn nhw fwyta unrhyw beth y maen nhw'n gallu ei ddal, gan gynnwys cregyn gleision, berdys, crancod a phryfed hyd yn oed. Pan mae'r llanw allan, maen nhw'n tynnu eu tentaclau i mewn ac yn edrych fel smotiau bach o jeli coch ar y creigiau.



Clustog Fair
Sea thrift



Cudyll coch
Kestrel



Anemoni gleiniog
Beadlet anemone



Melyn yr eithin
Yellow hammer



Cranc gwyrdd
Shore crab

# The Big 5!

## Sea thrift

This attractive pink flower grows on coastal slopes, rocky cliffs and saltmarshes. The best time to see it is between April and July when it is in flower, creating plumes of colour along the coastline. Thrift favours saline conditions growing as far down as the high tide mark, hence the Gaelic name 'tonna chladich' meaning beach waves. The Welsh name Clustog Fair means Mary's Pillow, because of the plump fluffy appearance of the foliage.

## Kestrel

Kestrels are a light brown colour and covered with dark spots; the males have a blue-grey head, whereas the females are all brown. They are most distinctive when hovering in search of prey, with their wide fan-shaped tail and perfect balance allowing them to keep their head still while surveying the ground below. They mostly hunt small mammals such as shrews, voles and mice found in open areas with long overgrown grass. They have incredible eyesight, being able to spot a beetle from 50 meters away. They can even see ultraviolet light, allowing them to spot urine trails left by small mammals revealing their burrows and runs before striking from above.

## Shore crab

The shore crab, also known as the green shore crab, is the most common species in and around our rocky shores in the UK. They eat most things they come across including other small crabs, barnacles, seaweed or the remains of dead sea creatures. They are normally a greenish colour and measure up to 9cm across at the shell. Shore crabs can be found anywhere along the coast that has some rock or seaweed cover. The female crabs carry their orange eggs around with them to keep them safe from predators and can lay as many as 100,000 eggs at one time.

## Yellow hammer

These birds are very distinctive and easily recognisable, especially the males with their bright yellow head and underparts with brown and black streaks throughout. The females are similar but duller and paler overall with less yellow on their heads. They are often seen perched on gorse bushes singing their distinctive 'a little bit of bread and no cheeeeeese' call. They breed from April to late August and nest is sand dunes, cliffs and even stone walls. They feed mainly on seed, grain and cereals but also caterpillars, snails, worms and other invertebrates.

## Beadlet anemone

This type of anemone is found in rockpools here at Porthor and throughout the intertidal zone clinging onto rocks for safety. The base of their body is a strong sucker attaching them to the rock, with an opening on top allowing their tentacles to emerge when underwater. They have 192 tentacles arranged in 6 circles used to catch prey and draw them into their mouths. They eat anything they can catch, including mussels, shrimps, crabs and even insects. When the tide is out, they retract the tentacles and look like little blobs of red jelly on the rocks.



Cudyll coch
Kestrel
melyn yr eithin
yellow hammer
iasbis/ jasper
plas carmel
llwybr arfordir Cymru
Wales Coast Path
carreg plas
maes parcio Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust car park
toiledau /toilets
Dinas fawr
Dinas bach
clustog fair
morlas/ pollock
ydfrain /rook
iris felen/ yellow flag iris
caffi porthor
thrift
odyn galch/lime kiln
cranc gwyrdd
shore crab
anemoni
Beadlet anemone
methlem
cylchdaith carreg plas circular walk
1.8 milltir/miles
50 munud/minutes
cylchdaith methlem circular walk
2 filltir/miles
1 awr/hour